# Mesur Addysg (Cymru) 2011

**2011 mccc 7**

## RHAN 1

CYDLAFURIO GAN GYRFF ADDYSG

### 4 Ystyr "pwerau cydlafurio"

At ddibenion y Rhan hon, ystyr "pwerau cydlafurio" yw—

(a) y pwerau yn adran 5;

(b) yn achos awdurdod lleol—

(i) ei bŵer i awdurdodi person (neu gyflogeion y person) i arfer swyddogaeth ar ran yr awdurdod o dan orchymyn a wnaed o dan adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994;

(ii) ei bŵer o dan adran 101(1)(b) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau awdurdodau lleol);

(iii) pŵer gweithrediaeth yr awdurdod (neu bwyllgor neu aelod penodedig o'r weithrediaeth) i wneud trefniadau ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau o dan reoliadau a wnaed o dan adran 19(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth awdurdod lleol gan awdurdod lleol arall etc);

(iv) pŵer awdurdod i wneud trefniadau ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau o dan reoliadau a wnaed o dan adran 19(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau awdurdod lleol gan weithrediaeth etc awdurdod lleol arall).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 33(2)**

**I2** A. 4 mewn grym ar 16.11.2012 gan O.S. 2012/2656, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2011, Adran 4.